Newydd

Y Safon Gwasanaeth Rheolaeth Tenantiaeh

Eich Hawliau

Mae Newydd yn ymroddedig i sicrhau fod ein tenantiaid yn gwybod beth yw eu hawliau. Byddwn yn ymgynghori gyda chi ar unrhyw newidiadau i'ch cytundeb tenantiaeth neu ar unrhyw newidiadau eraill i'r gwasanaeth a gyflwynwn. Gall hyn fod drwy ein Paneli Cymunedol, Grwpiau Ymgynghori neu'r Rhwydwaith Ymgynghori. Mae croeso i chi gymryd mwy o ran. (Mae mwy o wybodaeth ar sut y byddwn yn rhoi rhan ac ymgynghori yn ein taflen ar Strategaeth Ymgyfraniad Preswylwyr).

- Os cawn ein hysbysu am doriad tenantiaeth, bydd Swyddog Tai yn ymchwilio a thrafod hyn gyda'r rhai perthnasol a chytuno ar y gweithredu addas i ddelio gyda'r broblem.

- Os oes gennych ôl-ddyledion rhent byddwn yn anfon llythyr atoch neu'n ymweld â chi a rhoi datganiad rhent cywir i chi. Byddwn yn dweud wrthych os oes unrhyw fudd-daliadau y medrwch wneud cais amdanynt. Dylech gysylltu â'ch Swyddog Tai os ydych yn cael problemau'n talu eich rhent ar unrhyw amser.

Mae gennych hawl i weld yr wybodaeth a gadwn ar ffeil amdanoch. Os dymunwch wneud hyn mae'n rhaid i chi roi hysbysiad i ni mewn ysgrifen:

- Cadwn yr hawl i godi £10 arnoch am hyn.
- Cadwn yr hawl i ddatgelu gwybodaeth rhag trydydd parti.
- Mae'n rhaid i ni ateb eich cais o fewn 40 diwrnod ond byddwn yn ceisio gwneud hyn ynghynt yn ôl ein Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid.

Y Safon Gwasanaeth Rheolaeth Tenantiaeth

Er mwyn edrych ar ôl eich cymdogaeth – i wneud yn siŵr fod ein cymdogaethau yn fannau lle mae pobl eisiau byw a theimlo'n ddiogel ynddynt, byddwn yn:

- Archwilio ein cymdogaethau gyda chynrychiolydd y tenantiaid ar gyfer yr ardal honno (os oes un) bob 3 mis;
- Dynodi ardaloedd ar gyfer eu gwella a chysylltu gydag asiantaethau allanol i gydweithio i fynd i'r afael â'r mater;
- Ymgynghori gyda phreswylwyr am welliannau i'r gymdogaeth;
- Gweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau allanol eraill;
- Nodi cerbydau sydd wedi eu gadael cyn gynted ag sy'n bosibl a hysbysu'r asiantaeth berthnasol sydd â'r grym i symud y cerbyd;
- Ymateb i adroddiadau am gerbydau wedi'u gadael o fewn 1 diwrnod gwaith a gwneud yn sicr fod yr eiddo'n ddiogel;
- Symud graffiti sy'n peri tramgwydd o fewn 24 o oriau gwaith.

Gwybodaeth Gyffredinol

- **Gwelliannau i'ch cartref –** byddwn yn ateb pob cais i wneud addasiadau i'ch cartref o fewn 28 diwrnod. Ni fyddwn yn gwrthod caniatâd yn afresymol.
- **Olyniaeth ac Aseiniadau –** os gofynnwch am gymryd tenantiaeth drosodd neu drosglwyddo tenantiaeth i rywun arall byddwn yn gadael i chi wybod beth yw ein penderfyniad o fewn 28 diwrnod.
- **Cyd-gyfnewid –** Os dymunwch gyd-gyfnewid byddwn yn eich hysbysu am ein penderfyniad o fewn 42 diwrnod.